**Adroddiad am weithgareddau'r Gymdeithas 2024-2025**

Bu'n flwyddyn brysur arall i'r Gymdeithas, yn enwedig yn dilyn Cynhadledd CGM CCYSAGauC yn nhymor yr haf, a ddarparodd becyn dysgu proffesiynol pwysig i GYSau ac ymarferwyr yn eu hawdurdodau lleol.

**1. Eleni cyfarfu'r Gymdeithas ar dri achlysur.**

Cafodd ein cyfarfod Hydref ei letya ar 14 Tachwedd 2024 gan GYSAG/CYS Sir Fynwy drwy Zoom. Lletywyd ein cyfarfod gwanwyn ar 6 Mawrth 2025 gan GYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr drwy Zoom. Lletywyd ein cyfarfod Haf ar 2 Gorffennaf 2025 gan GYSAG/CYS Ynys Môn drwy Zoom. Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth barhaus CYSAGau / CYSau wrth iddyn nhw groesawu'r cyfarfodydd hyn.

**2. Cyfarfu'r Pwyllgor Gwaith dair gwaith.**

Cynhaliwyd y cyfarfodydd ar 2 Hydref 2024, 5 Chwefror 2024 ac 15 Mai 2025, pob un ohonynt ar-lein drwy Zoom. Roedd gan y Pwyllgor Gwaith agenda lawn drwy gydol y flwyddyn a oedd yn cynnwys yr eitemau a'r gweithgareddau canlynol.

a. Parhau i ystyried ac ymateb i ddatblygiadau oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â CGM ac AG yn y Cwricwlwm i Gymru.

b. Rhoi cyngor a chefnogaeth i ymgynghorwyr a ChYSAG / CYSau yng Nghymru mewn ymateb i'w hymholiadau. Roedd hyn yn cynnwys creu ffeithlun (*infographic*) Cwestiynau Cyffredin a ffeithlun 'Sut rydym yn cefnogi CYSau ein haelodau'.

c. Cyfarfu cynrychiolwyr o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC (gyda chynrychiolydd o PYCAG) â chydweithwyr Llywodraeth Cymru fel rhan o gylch penodol o gyfarfodydd gyda CCYSAGauC. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnig cyfle i godi materion sy'n bwysig i GYSAGau / CYSau lleol. Ar ben hynny, roedd eitemau ar yr agenda yn cynnwys yr argyfwng recriwtio mewn TGAU a Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol ac AGA, adnoddau dysgu proffesiynol, agweddau o grynodeb y ddeddfwriaeth ar Hwb, a chyflwyno adroddiadau blynyddol CYS ymhlith materion amserol eraill. Mae Kevin Palmer o Lywodraeth Cymru yn edrych ar yr argyfwng recriwtio ochr yn ochr â CCYSAGauC.

d. Cwblhaodd CCYSAGauC ail gam y barterniaeth ddysgu genedlaethol fawr rhwng Llywodraeth Cymru â CCYSAGauC. Mae'r ail swp o adnoddau dysgu proffesiynol cenedlaethol wrthi'n disgwyl cael eu cyhoeddi ar Hwb Llywodraeth Cymru. Mae'r adnoddau i gyd yn cael eu sicrhau o ran ansawdd cyn cael eu cyhoeddi ar Hwb Llywodraeth Cymru.

e. Cyfarfu cynrychiolwyr o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC (yn aml gyda chynrychiolydd PYCAG) ag amrywiol fudiadau yng Nghymru a thu hwnt nifer o weithiau drwy'r

flwyddyn. Yng Nghymru roedd hyn yn cynnwys nifer o gyfarfodydd â Chymwysterau Cymru mewn perthynas â'r cymwysterau 14-16.

f. Cryn dipyn o ohebiaeth ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg o ran cefnogaeth i CGM Mandadol. Anfonwyd llythyr at Is Ganghellor Prifysgol Metropolitan Caerdydd i fynegi pryder CCYSAGauC am effaith eu digwyddiadau arfaethedig ar ddyfodol dysgu CGM yng Nghymru.

g. Mae CCYSAGauC wedi cytuno eleni eto i dalu i ddau athro fynychu Cynhadledd EFTRE yn Budapest ym mis Awst 2025. Derbynnir adroddiad gan yr athrawon yn o gyfarfodydd nesaf CCYSAGauC.

h. Trafodaethau pwysig eraill yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith oedd (1) dyfodol cyfarfodydd CCYSAGauC - ar-lein neu wyneb yn wyneb? Cytunwyd y byddai CCYSAGauC yn parhau â chyfarfodydd ar-lein am y tro; (2) Cefnogaeth i brosiect ymchwil "Llais yr Athro: CGM yn y cwricwlwm i Gymru". Mae'r prosiect hwn yn cael ei wneud mewn cydweithrediad â Chanolfan San Silyn, Wrecsam a heb ddim cost i CCYSAGauC; (3) Dathlu 30 mlynedd CCYSAGauC; (4) derbyn Adroddiadau Blynyddol CYSAG; (5) Gohebiaeth gan Philip Blaker, Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru, yn egluro'r rhesymeg dros yr oedi cyn cael manyleb derfynol TGAU Astudiaethau Crefyddol mewn ymateb i bryderon a godwyd yng nghyfarfod Hydref CCYSAGauC; (6) Derbyniodd y Pwyllgor Gwaith wybodaeth am ddiddymu MAGC a thalwyd teyrnged i'r gwaith roedd wedi'i wneud yng Nghymru i hyrwyddo Addysg Grefyddol. (7) Ystyried cais i gynnal Cynhadledd EFTRE yng Nghymru, gyda holl oblygiadau hynny; (8) Trafodaeth am ymarferoldeb cynnal cynhadledd CCYSAGauC arall yn y dyfodol agos; (9) Cynnal a diweddaru'n Gwefan; (10) adroddiadau ar y cyfarfodydd arferol gyda Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru, Estyn a ffurf cymwysterau CGM yn y dyfodol; (11) Ariannu a chefnogi gwneud ffilm ar CGM.

**3. Cyfrifon.**

Rhannwyd adroddiad y Trysorydd am 2023-2024 yn y Cyfarfod Blynyddol yn haf 2024. Cyflwynwyd Datganiad o'r cyfrifon ac adroddiad yn esbonio'r wybodaeth. Nodwyd fod gwariant yn fwy nac incwm yn y flwyddyn o £3,718.66 o'i gymharu ag incwm dros ben o £8,989.44 yn y flwyddyn gynt. Eglurodd y Trysorydd yn fanwl y rhesymau dros y newid hwn. Roedd cyfanswm y gost i CCYSAGAuC o letya'r Gynhadledd yn Wrecsam yn £17235 a daeth cost y ffilm a wnaed i hyrwyddo CGM fel pwnc gwerth ei ystyried gan ddisgyblion i £10341. Cytunwyd mewn cyfarfodydd CCYSAGauC dilynol pan mae'r ffigyrau hyn wedi'u hadrodd, fod yr arian wedi ei wario ar bethau gwerth chweil. Mae brwdfrydedd i gael Cynhadledd eto, ond mewn fformat gwahanol.

Mae pob CYSAG / CYS sy'n aelodau o CCYSAGauC wedi talu eu tanysgrifiadau am y flwyddyn, fodd bynnag mae'n drist nod fod dau GYSAG / CYS (Abertawe a Sir Benfro) wedi tynnu eu haelodaeth o CCYSAGauC. Nodwyd fod y sefyllfa ariannol yn dal i fod yn iach a bod lefel y cyllid oedd ar gael i CCYSAGauC i dalu am ei gweithgareddau arfaethedig yn galonogol. Argymhellwyd a chytunwyd y byddai'r tanysgrifiad blynyddol ar gyfer 2024-2025 yn aros yr un peth yng ngoleuni'r amgylchiadau ariannol anodd presennol.

**4. Aelodau newydd o'r Pwyllgor Gwaith**

Yn y Cyfarfod Blynyddol yn haf 2024, cafodd Rachel Samuel, yn cynrychioli Castell-nedd Port Talbot ei hethol i swydd yr Is Gadeirydd a chafodd Kathy Riddick yn cynrychioli Blaenau Gwent ei hethol i'r Pwyllgor Gwaith am y cyfnod 2024-2027:

**5. Cyflwyniadau PYCAG a CCYSAGauC:**

Gan nad oedd cyfarfodydd wyneb yn wyneb, cadwyd cyflwyniadau PYCAG i'r lleiafswm ac roeddent yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau mwyaf brys.

- Yng nghyfarfod Sir Fynwy ar 14 Tachwedd 2024 cafwyd cyflwyniad am Ffilm CGM CCYSAGauC
- Roedd cyfarfod Pen-y-bont ar Ogwr ar 6 Mawrth 2025 yn cynnwys cyflwyniad gan Phil Lord ar Adroddiadau Blynyddol CYSAG
- Roedd cyfarfod Ynys Môn ar 2 Gorffennaf 2025 yn cynnwys cyflwyniad gan Jamie Woodhouse ar Ymdeimladaeth (*Sentientism*)

Fel Cadeirydd CCYSAGauC, hoffwn ddiolch i'n holl aelod-GYSAGau / CYSau am eu hymrwymiad i'r Gymdeithas a'u cefnogaeth. Hefyd, diolch yn fawr am waith caled aelodau'r Pwyllgor Gwaith. Hebddynt ni fyddai'n gweithgareddau wedi bod yn bosibl. Rwyf wedi bod yn ddiolchgar i'r Is Gadeirydd a'r Cyn-Gadeirydd sydd wedi Cadeirio cyfarfodydd pan nad oedd modd i mi fod yn bresennol, naill ai oherwydd salwch neu broblemau technegol.